# YR AELOD CABINET
# DROS FATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO

**14 MAWRTH 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd C.A. Davies (Aelod o’r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M. Pemberton, Cydlunydd rhaglen Leader;
L. Morris, Swyddog Trefi Marchnad Gwledig;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Swyddfa Aelod Cabinet, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP: 10:00yb - 10:15yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 2. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: CYLLID CYFALAF 10 TREF SIR GÂR

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad ar Gymorth Ariannol o Gyllid Cyfalaf y 10 Tref mewn perthynas ag 1 cais gan Gyngor Tref Llanymddyfri. Dywedwyd mai nod y cyllid oedd cefnogi gwelliannau i economi twristiaeth ac ymwelwyr Llanymddyfri fel rhan o'r rhaglen 10 Tref.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Aelod Cabinet gymeradwyo'r cais am gyfanswm cyllid o £60,681.08 a atodir i'r adroddiad yn Atodiad 1.

Nododd yr Aelod Cabinet fod datblygu pecyn o brosiectau gwella twristiaeth i gefnogi twf y dref wedi cael ei nodi fel un o brif flaenoriaethau Llanymddyfri. Yn ogystal, roedd y cyfleoedd a oedd yn cael eu cynnig yn sgil cynnal Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri yn golygu y byddai'r prosiect yn cael ei gyflwyno'n raddol er mwyn sicrhau bod yr elfennau gwella twristiaeth, fel y nodwyd yn y cais, yn cael eu cwblhau'n amserol i fanteisio ar y nifer fawr o ymwelwyr a fyddai'n dod i'r ardal yn ystod wythnos yr ŵyl.

Dywedwyd bod y cyllid yn amodol ar yr amodau canlynol:-

I. Cymeradwyaeth Caniatâd Heneb Gofrestredig gan CADW;
II. Caniatâd hysbysebu gan Gyngor Sir Caerfyrddin;
III. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, roedd lwfans wedi cael ei roi yn seiliedig ar drafodaethau â'r cyflenwr yn ymwneud â dylunio a gwaith ychwanegol i gynnwys canllaw yn y castell, yn unol â'r cais gan CADW a Chyngor Sir Caerfyrddin;
IV. Gosod cyfyngiad cyfreithiol ar Y Gannwyll yn unol â gweithdrefnau Cyngor Sir Caerfyrddin.
V. Ffurfioli'r brydles rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Llanymddyfri ar gyfer datblygiadau'r castell.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar roi'r amodau uchod ar waith, gymeradwyo'r cais canlynol am Gyllid Cyfalaf y 10 Tref fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad;**
**Cyngor Tref Llanymddyfri - Cyfanswm Gwerth = £60,681.08**

| **AELOD O'R CABINET** | **DYDDIAD** |
|---|---|

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council